



**AMODAU'R DRWYDDED  
AR GYFER  
GOFAL DYDD I GŴN  
MEWN LLEOLIADAU  
MASNACHOL**  
*(EIDDO NAD YDYNT YN GYNELAU)*

## Rhagarweiniad

Bydd busnes sy'n darparu llety dydd i gŵn mewn eiddo masnachol, i ffwrdd o'u man preswyl arferol, heb eu cadw dros nos a heb unrhyw gynelau, angen trwydded fasnachol ar gyfer darparu gofal dydd i gŵn. Fe allai eiddo sy'n dod o dan y cwmpas hwn gynnwys uned ddiwydiannol ac eiddo masnachol. Ni fydd angen trwydded gofal dydd ar fusnesau sy'n gofalu am gŵn o fewn eu man preswyl arferol (e.e. gwarchodwyr anifeiliaid anwes), neu lle nad y llety a ddarperir yw prif ddiben y busnes hwnnw (e.e. milfeddygfeydd). Bydd busnes sy'n darparu gofal dydd mewn eiddo domestig angen cydymffurfio ag amodau'r drwydded lletya cŵn yn y cartref. Bydd yn rhaid i fusnes sy'n darparu gofal dydd mewn amgylchedd cenel gydymffurfio ag amodau'r drwydded ar gyfer cynelau cŵn.

Oni nodir fel arall, bydd yr amodau hyn yn gymwys i bob adeilad ac ardal y mae gan gŵn fynediad iddynt ac/neu a ddefnyddir mewn cysylltiad â lletya cŵn yn y cartref.

Rhaid i'r eiddo gael ei weithredu mewn ffordd sy'n osgoi niwsans (sŵn/croniadau ac ati) i feddianwyr tai cyfagos. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion o ran niwsans gan yr adran tai a llygredd, a gallai unrhyw gwynion cyfiawn arwain at leihau nifer y cŵn y cewch eu lletya neu ddiddymu eich trwydded.

Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch i redeg busnes o safle, a gallwch wneud cais am gyngor gan yr adran gynllunio drwy gyflwyno ymholiad cynllunio ar-lein. Efallai y bydd angen i chi hefyd dalu mwy o ardrethi os byddwch yn defnyddio rhan o'ch eiddo ar gyfer busnes; i gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r adran ardrethi busnes ar: [nndr.enquiries@conwy.gov.uk](mailto:nndr.enquiries@conwy.gov.uk) Os oes gennych forgois ar eich eiddo, fe'ch cynghorir i gysylltu â'ch benthyciwr i roi gwybod iddynt eich bod yn defnyddio'r eiddo er dibenion busnes.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech chi ragor o wybodaeth am drwyddedau anifeiliaid, anfonwch neges e-bost at [foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk](mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk), ffoniwch 01492 575283 neu ewch i [www.conwy.gov.uk/animal-boarding](http://www.conwy.gov.uk/animal-boarding).

## Cynnwys

|  |                   |
|--|-------------------|
| <b>Dangos trwydded ac yswiriant.....</b>   | <b>Tudalen 3</b>  |
| <b>Amodau cyffredinol .....</b>  | <b>Tudalen 3</b>  |
| <b>Adeiladwaith mewnol ac allanol.....</b>   | <b>Tudalen 4</b>  |
| <b>Maint y man lletya.....</b>   | <b>Tudalen 4</b>  |
| <b>Gwelyau a manau cysgu.....</b>  | <b>Tudalen 5</b>  |
| <b>Tymheredd, golau ac awyru.....</b>  | <b>Tudalen 5</b>  |
| <b>Glendid.....</b>  | <b>Tudalen 5</b>  |
| <b>Rheoli plâu a gwaredu gwastraff.....</b>  | <b>Tudalen 6</b>  |
| <b>Diet a maeth.....</b>   | <b>Tudalen 6</b>  |
| <b>Cyfleusterau ymarfer corff.....</b>   | <b>Tudalen 7</b>  |
| <b>Goruchwyliaeth.....</b>   | <b>Tudalen 7</b>  |
| <b>Iechyd a lles.....</b>  | <b>Tudalen 8</b>  |
| <b>Rheoli clefydau, brechiadau ac ynysu.....</b>                                     | <b>Tudalen 8</b>  |
| <b>Gofynion amrywiol.....</b>  | <b>Tudalen 9</b>  |
| <b>Cludo cŵn.....</b>  | <b>Tudalen 10</b> |
| <b>Gwagio'r adeilad mewn achos o dân, materion trydanol a deiliaid allweddi.....</b> | <b>Tudalen 10</b> |
| <b>Cadw cofnodion a chofrestr.....</b>   | <b>Tudalen 11</b> |
| <b>Meddyginiaethau arferol, cymdeithasu a thagiau adnabod.....</b>                   | <b>Tudalen 12</b> |

## Atodlen A – Amodau'r Drwydded

| AMODAU   | CANLLAWIAU  |
|--|---|
| <b>AMOD 1<br/>DANGOS TRWYDDED AC YSWIRIANT</b>   |   |
| a) Rhaid dangos y drwydded neu gopi ohoni yn glir ac yn amlwg i'r cyhoedd mewn man amlwg yn yr eiddo, neu sicrhau ei bod ar gael i bob cwsmer ar gais.   | <i>Gallech ddangos y drwydded mewn man cyhoeddus, megis ger y fynedfa a ddefnyddir i ddod â'r cŵn i'r eiddo neu yn y dderbynfa, neu fe allech sicrhau bod y drwydded ar gael i bob cwsmer.</i>  |
| b) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod y sefydliad wedi'i ddiogelu gan yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol ac addas. Rhaid dangos y dystysgrif yswiriant mewn man amlwg neu sicrhau ei bod ar gael ar gais. | <i>Dylai'r yswiriant gynnwys amrediad eang o anffodion cysylltiedig â chŵn, megis gofal brys gan filfeddyg, y ci'n mynd ar goll, y ci yn dianc, atebolrwydd trydydd parti ac atebolrwydd y cyflogwr (pan fo'n briodol).</i>   |
| <b>AMOD 2<br/>AMODAU CYFFREDINOL</b>   |   |
| a) Ni cheir derbyn cŵn sydd wedi'u cofrestru dan Ddeddf Cŵn Peryglus (DDA) 1991 ar gyfer gofal dydd, onid ydynt wedi'u cynnwys yn y Mynegai o Gŵn Eithriedig.  | <i>Dan y Ddeddf, mae bridiau cŵn gwaharddedig yn cynnwys y Pit Bull Terrier, y Fila Brasileiro, y Dogo Argentino a'r Japanese Tosa. Mae DDA 1991 yn caniatáu i gŵn y mae'r Llys yn ystyried nad ydynt yn beryglus i ddiogelwch y cyhoedd ac sydd dan reolaeth unigolyn cymwys ac addas, gael eu cynnwys yn y Mynegai o Gŵn Eithriedig. Os caiff yr holl amodau eu bodloni ac y caiff tystysgrif o eithriad ei darparu, gallwch benderfynu caniatáu llety i gi a restrir dan DDA 1991.</i>                 |
| b) Ni cheir rhoi llety i gŵn bach dan 6 mis oed onid ydynt wedi cael cwrs llawn o frechiadau ac na chafwyd unrhyw anawsterau yn ystod cyfnod cymdeithasu prawf a ddogfennwyd.                                | <i>Rhaid i unrhyw gi bach a dderbynnir fod wedi cael ei holl frechiadau diweddar. Mae'r rhain fel arfer wedi cael eu rhoi erbyn i'r ci bach gyrraedd 12 wythnos / 3 mis oed. Mae'n bwysig peidio â chaniatáu cŵn bach cyn hynny, gan y bydd angen iddynt fod wedi cael pob un o'u brechiadau ac wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd/gyda'u perchennog newydd.</i>  |
| c) Ni cheir rhoi cŵn gwryw heb eu hysbaddu a geist yn eu tymor, neu geist a fydd dod i dymor yn ystod y cyfnod gofal dydd, gyda'i gilydd.  | <i>Wrth gymryd archeb gan gwsmer ar gyfer gast heb ei hysbaddu, dylech ofyn pryd oedd ei thymor diwethaf ac/neu a fydd yn dod i dymor yn ystod ei chyfnod yn y llety.</i>   |
| d) Ni cheir derbyn cŵn crwydr i gael gofal dydd.   | <i>Gallai derbyn cŵn crwydr gyflwyno clefydau neu barasitiaid i'r sefydliad oherwydd eu diffyg cofnodion brechu, cofnodion iechyd a chofnodion triniaeth am barasitiaid. Hefyd, gallai'r ci fod yn beryglus i gŵn eraill.</i>   |
| e) Ni chaniateir i gŵn aros dros nos yn yr eiddo, ac eithrio os yw'r eiddo hefyd yn dal trwydded ar gyfer lletya cŵn dros nos.   | <i>Os na chaiff ci ei gasglu, dylai'r trwyddedai geisio cysylltu â'r perchennog a'r person cyswllt mewn argyfwng. Os hoffech chi ddechrau cynnig llety dros nos, rhaid i chi gael trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu cyn y cewch dderbyn cŵn i aros dros nos.</i>   |
| f) Ni ddylai nifer y cŵn a gedwir yn yr eiddo ar unwaith fod yn fwy na'r hyn a nodir ar y drwydded. Gallai methiant i gydymffurfio ag unrhyw amod trwydded arwain at ostyngiad mewn niferoedd cŵn.           | <i>Bydd ystyriaethau yn cael eu gwneud gan yr awdurdod trwyddedu ynghylch y sefydliad cyfan; yn cynnwys y llety sydd ar gael, staff, cyfleusterau ymarfer corff, a lefel y gydymffurfiaeth barhaus â'r drwydded wrth benderfynu ar uchafswm y cŵn y gellir eu cadw yn yr eiddo trwyddedig. I gynyddu nifer y cŵn, rhaid i chi gael caniatâd a chytundeb yr Awdurdod Trwyddedu.</i><br><br><i>Os nad yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon â gallu deiliad arfaethedig y drwydded neu ddeiliad presennol y</i> |

|  |  |
|--|--|
|  | <i>drwydded i fodloni'r amodau trwyddedu, gallant leihau nifer y cŵn y caiff y sefydliad eu lletya.</i>  |
| <b>g)</b> Gellir rhoi llety i gŵn o wahanol aelwydydd gyda'i gilydd ar yr un pryd, cyn belled ag y cynhelir asesiad ymlaen llaw o'u tymer, eu natur gymdeithasol a'u hanes lletya er mwyn sicrhau bod y trefniant yn addas, ac y ceir caniatâd ysgrifenedig yr amrywiol berchnogion. | <i>Rhaid gwneud hyn ar gyfer pob ci cyn ei letya yn y sefydliad am y tro cyntaf. Rhaid cadw cofnod o'r wybodaeth hon. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y cŵn yn cydweddu â'r cŵn eraill sy'n cael llety a'r cŵn sy'n byw yn yr eiddo, a bydd yn sicrhau bod holl berchnogion y cŵn yn ymwybodol bod eu cŵn yn cael eu lletya gyda chŵn eraill o wahanol aelwydydd a chŵn anwes yn yr eiddo.</i>   |
| <b>h)</b> Pan fo ci anwes yn byw yn yr eiddo, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig perchnogion y cŵn sy'n cael llety cyn sesiwn ymglyfarwyddo prawf.   |  |
| <b>AMOD 3<br/>ADEILADWAITH MEWNOL AC ALLANOL</b>   |  |
| <b>a)</b> Rhaid i gŵn dderbyn gofal dydd yn yr eiddo masnachol. Ni cheir codi adeiladau, cewyll na rhedfeydd allanol i'w defnyddio fel prif lety.  | <i>Rhaid i sefydliadau llety dydd gadw'r cŵn yn amgylchedd y cartref. Gellir cael strwythurau allanol (e.e. siediau, gasiboau, pebyll ac ati) y gall y cŵn eu defnyddio wrth ymarfer corff yn yr awyr agored (e.e. i orffwys, cysgodi rhag yr haul neu'r gwynt ac ati). Dim ond er y dibenion hyn y caniateir i'r strwythurau hyn gael eu defnyddio, ac ni cheir eu defnyddio fel llety. Ni fyddai unrhyw redfa, cawell nac adeilad allanol (cenel) a ddefnyddir yn bennaf i letya'r cŵn yn dod o fewn y cwrmpas ar gyfer trwydded gofal dydd masnachol, a byddai'n rhaid gwneud cais am drwydded cenel.</i> |
| <b>b)</b> Rhaid i'r eiddo fod â'i fynedfa ei hun nad yw'n cael ei rhannu ag unrhyw un arall.   | <i>Ni roddir trwydded i eiddo â mynediad a rennir megis cynteddau neu risiau cymunedol. Rhaid i fynedfeydd fod er defnydd yr eiddo hwnnw yn unig.</i>  |
| <b>c)</b> Rhaid i bob rhan o'r eiddo (yn fewnol ac yn allanol) gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da.   | <i>Mae hyn yn cynnwys pob arwyneb mewnol (lloriau, waliau ac ati), llwybrau allanol, gerddi, mannau ymarfer corff a'r amgylchedd cyffredinol.</i>  |
| <b>d)</b> Rhaid i bob rhan o'r eiddo (yn fewnol ac yn allanol) gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.   | <i>Rhaid sicrhau nad oes unrhyw ymylon miniog, pigau, ymylon garw na pheryglon eraill a allai achosi perygl o anaf i gi. Os defnyddir glaswellt artiffisial, rhaid iddo gael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da er mwyn osgoi'r perygl i gi ei lyncu.</i>   |
| <b>e)</b> Rhaid i bob arwyneb mewnol fod yn llyfn, yn anhydraidd ac yn hawdd ei lanhau/ddiheintio.   | <i>Pan fo'n bosib, dylai arwynebau mewnol fod yn 'arwynebau caled' yn hytrach nag yn garpedi. Os oes yna garpedi, rhaid i'r rhain gael ei glanhau yn ddigonol yn rheolaidd.</i>  |
| <b>f)</b> Rhaid i bob ardal (yn fewnol ac yn allanol) fod yn ddiogel er mwyn osgoi'r perygl o ddianc neu fynd ar goll.   | <i>Mae hyn yn cynnwys ffiniau priodol mewn mannau allanol, os yn berthnasol (e.e. ffensys – o uchder priodol ac adeiladwaith cadarn), ffenestri na ellir dianc drwyddynt (os yw'n berthnasol) a giatau diogel (y gellir eu cloi)/drysau cadarn all ymdopi â gwrthdaro, crafu a chnoi. Rhaid i unrhyw fylchau fod yn ddigon bach i atal ci rhag dianc neu fynd yn sownd. Pan fo'n briodol, fe ddylai'r brif fynedfa gynnwys system dwy giât. Rhaid cloi mynedfeydd eraill pan mae cŵn ar y safle.</i>   |
| <b>AMOD 4<br/>MAINT Y MAN LLETYA</b>   |  |

|   |   |   |
|---|---|---|
| a)  | Rhaid cael digon o le i gadw'r cŵn ar wahân os bydd angen.  | <i>Dylai'r sefydliad fod yn ddigon mawr i ganiatáu chwarae, ymarfer corff a gorffwys / cysgu'n ddiogel, gan roi ystyriaeth i nifer, maint, brîd a natur y cŵn sy'n cael eu lletya. Dylai fod yna ddigon o ystafelloedd/mannau ar wahân ar gael i'r cŵn er mwyn gallu eu lletya ar wahân os bydd angen. Gallai hyn fod yn fuddiol i rai cŵn y mae'n well ganddynt gael amser ar eu pennau eu hunain. Ym mhob achos, rhaid asesu'n briodol beth yw maint y ci a'i anghenion unigol, er mwyn sicrhau y gall y cyfleuster barhau i ddiwallu ei anghenion.</i> |
| b)  | Rhaid i gynllun y cyfleuster alluogi pob ci i ddewis a ydynt am weld cŵn eraill ai peidio.  |   |
| <b>AMOD 5<br/>GWELYAU A MANNAU CYSGU</b>    |   |   |
| a)  | Rhaid sicrhau bod man cysgu / gorffwys ar gael yn y sefydliad sy'n addas ac yn gyfforddus i'r cŵn sy'n cael eu lletya a rhaid rhoi ystyriaeth i faint a brîd y cŵn. | <i>Byddai disgwyl i'r man cysgu fod yn 1.2 metr sgwâr ar gyfartaledd. Byddai hyn yn ddigon o le i wely ar gyfer ci o faint canolig - mawr a hyd at ddau gi o faint bach - canolig.</i>  |
| b)  | Rhaid i'r man cysgu / gorffwys gynnwys gwelyau addas a digonol i bob ci.  | <i>Rhaid annog y perchnogion i ddarparu ei wely ei hun i'r ci, allai ei helpu i ymgartrefu yn yr amgylchedd. Dylid darparu gwely ar gyfer pob ci er mwyn osgoi cystadleuaeth neu fonopoleiddio.</i>   |
| c)  | Rhaid cadw pob gwely a man cysgu yn lan ac yn sych. Dylai'r Trwyddedai hefyd allu cynnig gwelyau ychwanegol os bydd angen.  | <i>Rhaid cael gwared ag unrhyw welyau sydd wedi'u baeddu ar unwaith a'u storio, eu gwaredu neu eu golchi'n briodol. Gellir defnyddio gwelyau sbâr a gedwir yn yr eiddo yn lle unrhyw welyau budr, neu os na fydd y perchnogion wedi darparu gwelyau digonol neu heb ddarparu gwely o gwbl.</i>  |
| <b>AMOD 6<br/>TYMHEREDD, GOLAU AC AWYRU</b> |   |   |
| a)  | Rhaid i gyfleusterau gwresogi ac oeri fod ar gael yn yr amgylchedd (gan gynnwys y cyfleusterau ynysu), a rhaid eu defnyddio yn unol â gofynion y cŵn unigol.        | <i>Er mwyn cynnal y tymheredd gofynnol, gallai fod yn briodol defnyddio ffynonellau gwres unigol ar gyfer y cŵn. Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen gwres cefndirol ychwanegol hefyd (e.e. gwres canolog).</i>  |
| b)  | Rhaid i ran o'r man cysgu gael ei neilltuo i'r ci gael mwynhau isafswm tymheredd o 10°C ac uchafswm tymheredd o 26°C, gyda manau ynysu rhwng 13°C a 26°C.           | <i>Rhaid monitro'r cŵn i wneud yn siŵr nad ydynt yn rhy boeth nac yn rhy oer. Os bydd ci unigol yn dangos arwyddion ei fod yn methu goddef gwres neu oerni, rhaid cymryd camau i sicrhau lles y ci hwnnw. Rhaid i gi allu ei symud ei hun oddi wrth ffynhonnell wres uniongyrchol. Dylid ceisio a dilyn cyngor milfeddygol ar gyfer cŵn sy'n ynysu.</i>   |
| c)  | Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod pob ffynhonnell wres yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoliadol ar gyfer y cŵn a'r unigolion sy'n gweithio yno.     | <i>Rhaid peidio â gosod gwresogyddion mewn modd na lleoliad lle gallent achosi perygl o losgi neu sioc drydanol / trydanladdiad i gŵn neu bobl, neu berygl o dân. Dylai tannau agored gael eu gwarchod yn briodol.</i>  |
| d)  | Rhaid darparu golau mewn manau ymarfer corff a manau cysgu, fel bod pob man yn weladwy.   | <i>Pan fo'n ymarferol, dylai hwn fod yn olau naturiol yn ystod y dydd. Dylai golau artiffisial fod ar gael yn ystod y nos. Dylid rhoi ystyriaeth i leoliad unrhyw oleuadau sy'n sefyll ar eu traed eu hunain y gallai'r cŵn eu taro drosodd.</i>  |
| e)  | Rhaid darparu awyriad digonol ym mhob ardal fewnol heb greu gormod o ddrafft mewn manau penodol a gan osgoi gormod o leithder.                                      | <i>Gellir darparu awyriad digonol dim ond drwy agor ffenestr, ond dylid rhoi ystyriaeth lawn a chymryd camau i atal y perygl o ddianc neu gyfaddawdu diogelwch y cŵn. Gellir darparu awyriad hefyd drwy ddefnyddio ffaniau cludadwy neu unedau aerdymheru.</i>  |
| <b>AMOD 7<br/>GLENDID</b>                   |   |   |
| a)  | Rhaid cadw pob ardal y gall y cŵn fynd iddynt yn lân ac heb grynodiadau o lwch a baw, a rhaid eu  | <i>Rhaid dewis cynhyrchion glanhau a diheintio ar sail addasrwydd, diogelwch, cydnawsedd ac effeithiolrwydd.</i>  |

|   |   |
|---|---|
| <p>cadw mewn modd sy'n cadw rheolaeth ar glefydau ac yn sicrhau bod y cŵn yn gyfforddus.</p>  | <p><i>Rhaid i gynhyrchion diheintio fod yn firwsleiddiol ac yn facterleiddiol. Rhaid defnyddio cynhyrchion glanhau a diheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr. Rhaid i'r staff sy'n defnyddio'r cynhyrchion glanhau fod yn gymwys i ddefnyddio glanedyddion a hylifau yn ddiogel.</i></p>   |
| <p><b>b)</b> Rhaid cael gwared ar faw ci a deunyddiau a faeddwyd o bob ardal a ddefnyddir gan y cŵn cyn gynted â phosibl ac o leiaf unwaith y dydd.</p>   | <p><i>Rhaid cadw cynhyrchion glanhau ymhell o gyrraedd anifeiliaid. Rhaid cadw offer twtio cŵn yn lân ac mewn cyflwr da. Os mai'r perchennog sydd wedi eu darparu, dim ond ar eu ci nhw y ceir eu defnyddio, a dylid eu hanfon adref gyda'r ci. Rhaid glanhau a diheintio teganau rhwng pob defnydd gan wahanol gŵn, neu gael gwared arnynt neu eu dychwelyd i berchennog y ci (os daethant yno gyda'r ci). Mae rhestr o ddiheintyddion i'w gweld yma – <a href="http://disinfectants.defra.gov.uk">http://disinfectants.defra.gov.uk</a></i></p>   |
| <p><b>c)</b> Rhaid i gynhyrchion glanhau fod yn addas, yn ddiogel ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy'n beryglus i'r anifeiliaid. Rhaid eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a'u defnyddio mewn ffordd sy'n osgoi trallod neu ddiodefaint i'r anifeiliaid.</p>  | <p><i>Rhaid i gynhyrchion diheintio fod yn firwsleiddiol ac yn facterleiddiol. Rhaid defnyddio cynhyrchion glanhau a diheintio yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr. Rhaid i'r staff sy'n defnyddio'r cynhyrchion glanhau fod yn gymwys i ddefnyddio glanedyddion a hylifau yn ddiogel. Rhaid cadw cynhyrchion glanhau ymhell o gyrraedd anifeiliaid. Rhaid cadw offer twtio cŵn yn lân ac mewn cyflwr da. Os mai'r perchennog sydd wedi eu darparu, dim ond ar eu ci nhw y ceir eu defnyddio, a dylid eu hanfon adref gyda'r ci. Rhaid glanhau a diheintio teganau rhwng pob defnydd gan wahanol gŵn, neu gael gwared arnynt neu eu dychwelyd i berchennog y ci (os daethant yno gyda'r ci). Mae rhestr o ddiheintyddion i'w gweld yma – <a href="http://disinfectants.defra.gov.uk">http://disinfectants.defra.gov.uk</a></i></p> |
| <p><b>AMOD 8<br/>RHEOLI PLÂU A GWAREDU GWASTRAFF</b></p>  |   |
| <p><b>a)</b> Rhaid cymryd mesurau i gadw'r eiddo'n rhydd rhag cnofilod, pryfed a phlâu eraill. Rhaid cael gwared ag unrhyw blâu ar unwaith.</p>   | <p><i>Gall hyn gynnwys cael contract rheoli plâu, osgoi cronni gwastraff, glendid (cael gwared ar faw cŵn ac ati) a storio bwyd yn briodol. Dylid dilyn canllawiau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cynhyrchion rheoli plâu (e.e. gwenwyn/trapiau) er mwyn lleihau'r perygl i gŵn a phobl.</i></p>   |
| <p><b>b)</b> Rhaid cymryd rhagofalon a mesurau i gadw'r cŵn preswyl a'r rhai sy'n cael llety yn rhydd rhag parasitiaid allanol. Rhaid trin parasitiaid o'r fath gyda chynnyrch milfeddygol addas ar unwaith, er mwyn cael gwared ar unrhyw bla. Rhaid trin y llety'n rheolaidd a chadw tystiolaeth o bob triniaeth arferol a brys ar gyfer parasitiaid.</p> | <p><i>Rhaid codi baw cŵn er mwyn atal parasitiaid rhag ymsefydlu. Os gwelir tystiolaeth o barasitiaid allanol (chwain, trogod, llau), rhaid trin y ci gyda chynnyrch priodol a awdurdodwyd gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol ac a drwyddedwyd i'w ddefnyddio yn y DU. Dylid trafod triniaeth gyda milfeddyg cyn ei weinyddu. Rhaid cael caniatâd y perchennog i'w weinyddu. Dylai'r perchennog ddarparu tystiolaeth o driniaeth chwain/llyngyr.</i></p>  |
| <p><b>c)</b> Rhaid darparu cyfleusterau ar gyfer derbyn, storio a chael gwared â phob gwastraff yn briodol. Dylid cymryd gofal arbennig i gadw gwastraff clinigol sy'n deillio o drin a delio â chŵn gyda chlefydau heintus ar wahân. Rhaid i'r cyfleusterau gwaredu gwastraff anifeiliaid gydymffurfio â rheoliadau gwastraff cyfredol.</p>                | <p><i>Fel rhan o'ch busnes, mae dyletswydd arnoch i gael gwared â'ch gwastraff yn gyfrifol, drwy gludwr gwastraff masnachol trwyddedig. Ni ddylid defnyddio biniau gwastraff domestig ar gyfer gwastraff cysylltiedig â'r busnes. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru neu Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gael y canllaw Bwrdeistref Sirol Conwy i gael y canllawiau cyfredol ar y ffordd briodol o waredu gwastraff ar gyfer eich busnes.</i></p>  |
| <p><b>AMOD 9<br/>DIET A MAETH</b></p>   |   |
| <p><b>a)</b> Rhaid darparu diet digonol ac addas i bob ci o ran ansawdd, swm ac amlder yn unol â chyfarwyddyd y perchennog.</p>   | <p><i>Dylai perchennog y ci ddarparu bwyd er mwyn osgoi unrhyw newid sydyn yn niet y ci, allai achosi problemau treulio. Rhaid cyflwyno unrhyw fwyd newydd yn raddol er mwyn i'r anifeiliaid gael amser i addasu iddo. Dylai pob ci dderbyn diet sy'n bodloni eu gofynion maethol ac sy'n addas ar gyfer eu hoedran, eu brîd, eu statws atgenhedlu, sgôr cyflwr eu corff (swm y braster) a'u lefel gweithgarwch.</i></p>  |
| <p><b>b)</b> Rhaid i ddŵr yfed glân fod ar gael bob amser, a hynny mewn cynhwysydd addas ar gyfer y brîd dan sylw. Rhaid glanhau'r cynhwysydd yfed yn ddyddiol a newid y dŵr o leiaf unwaith y dydd.</p>  | <p><i>Rhaid darparu dŵr ffres bob dydd mewn cynhwysydd glân, a'i newid neu ei ail-lenwi yn ôl yr angen. Rhaid darparu nifer o bowlenni dŵr er mwyn sicrhau bod dŵr ar gael yn hawdd i bob ci. Dylid gwirio faint o ddŵr y mae'r cŵn yn ei yfed a rhoi gwybod i'r perchennog os nad yw eu ci yn yfed digon neu os yw'n yfed gormod.</i></p>  |

|                                   |  |  |
|-----------------------------------|--|--|
| c)                                | Rhaid darparu powlen fwyd unigol i bob ci.   | <i>Dylai cŵn gael eu powlen fwyd eu hunain er mwyn osgoi cystadleuaeth ac ymddygiad ymosodol, a dylid monitro bwytywyr swil.</i>   |
| d)                                | Rhaid i lestri bwyta ac yfed fod yn rhai y gellir eu glanhau a'u diheintio yn hawdd (neu'n rhai untro) er mwyn atal traws-heintio. Rhaid glanhau powlenni bwyd ar ôl pob pryd.   | <i>Rhaid i'r llestri fod yn rhai difandwll, rhaid eu glanhau yn ddyddiol a'u diheintio'n aml. Os cânt eu difrodi, rhaid cael gwared arnynt neu eu trwsio.</i>  |
| e)                                | Dylid cael gwared â bwyd sydd dros ben yn ôl yr angen.   | <i>Ni cheir gadael bwyd sych yn y powlenni bwyd am fwy na 24 awr. Pan fwydir bwyd gwlyb, rhaid cael gwared ar unrhyw fwyd sydd dros ben cyn yr amser bwydo nesaf.</i>  |
| f)                                | Rhaid darparu cynwysyddion aerdyn i storio bwydydd sych.   | <i>Mae hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r perygl o fermin ac yn sicrhau y cedwir y bwyd yn sych ac mewn cyflwr da.</i>  |
| g)                                | Rhaid darparu oergell addas i storio bwyd ci, ac eithrio pan ddefnyddir bwyd silff-sefydlog yn unig (e.e. tuniau), ac os bydd unrhyw fwyd dros ben yn cael ei daflu.   | <i>Rhaid storio bwyd heb ei goginio (amrwd) a gweddillion tuniau wedi'u hagor yn yr oergell. Os caiff bwyd ci ei storio yn oergell yr aelwyd, fe'ch cynghorir i'w storio ar wahân i fwydydd eraill am resymau hylendid.</i>  |
| h)                                | Rhaid storio bwyd heb ei goginio (bwyd ci amrwd) a gweddillion tuniau wedi'u hagor mewn cynwysyddion anfetelig nad ydynt yn gollwng, gyda gorchudd arnynt, yn yr oergell.  | <i>Mae hyn i sicrhau bod y bwyd wedi'i ddiogelu rhag halogiad wrth gael ei storio, ac i ddiogelu bwydydd eraill rhag cael eu halogi. Ni cheir storio bwyd mewn tuniau wedi'u hagor yn yr oergell, oherwydd unwaith y bydd ar agor i'r aer, gallai'r metel o'r tun drosglwyddo i'r cynnwys/bwyd.</i>  |
| i)                                | Rhaid storio bwyd yn briodol er mwyn osgoi'r perygl o fermin, a'i storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.  | <i>Gall hynny fod mewn cynwysyddion wedi'u selio neu gypyrddau. Os gwelir tystiolaeth o ddfrod gan blâu i unrhyw fwyd, rhaid cael gwared arno a glanhau a diheintio yn ddigonol.</i>   |
| j)                                | Rhaid i sinc gyda dŵr oer a phoeth fod ar gael yn yr eiddo i olchi dwylo ac i lanhau.  | <i>Fe'ch cynghorir i baratoi bwyd ci yn gwbl ar wahân i'r manau a ddefnyddir i baratoi bwyd i bobl am resymau hylendid. Rhaid darparu sinc gyda dŵr oer a phoeth i olchi cyfarpar bwyd a llestri bwyta ac yfed. Rhaid i'r sinc hwnnw fod wedi'i gysylltu â system ddraenio addas. Rhaid i sebon a chyfleusterau sychu dwylo glanwaith hefyd fod ar gael.</i> |
| <b>AMOD 10</b>                    |  |  |
| <b>CYFLEUSTERAU YMARFER CORFF</b> |  |  |
| a)                                | Mae'n rhaid i bob sefydliad fod â man i ymarfer corff sydd ar wahân i unrhyw fan gorffwyso / cysgu. Mae'n rhaid i'r safleoedd hynny heb unrhyw gyfleusterau ymarfer corff ychwanegol, neu gyfleusterau nad ydynt yn cael eu defnyddio, gynnig ymarfer corff ar dennyn gyda chaniatâd y perchennog. | <i>Os yw'n amhriodol i rai cŵn fod mewn ardaloedd cymunedol, dylid gweithredu dull arall megis mynd â'r cŵn am dro ar dennyn. Dylid ceisio caniatâd ysgrifenedig gan y perchnogion, os bydd hyn yn digwydd tu allan i'r eiddo.</i>   |
| b)                                | Mae'n rhaid i ofod ymarfer corff fod o faint priodol, gan roi ystyriaeth i frîd, maint ac anghenion unigol y cŵn.  |  |
| c)                                | Os nad oes cyfleusterau ymarfer corff ar gael y tu allan, mae'n rhaid i'r cŵn gael egwylliau rheolaidd i fynd i'r toiled ac ymarfer corff oddi ar y safle (yn ôl cyfarwyddyd eu perchnogion). Mae'n rhaid i'r rhain gael eu cofnodi.   | <i>Os yw'r cyfleusterau ymarfer corff y tu mewn, mae'n rhaid i egwylliau rheolaidd oddi ar y safle i fynd i'r toiled ac i fynd am dro / gwneud ymarfer corff, gael eu cofnodi. Mae'n rhaid dogfennu'r wybodaeth ganlynol: dyddiad, enw'r ci, yr aelod o staff / unigolyn a aeth â'r ci am dro a hyd y daith.</i>   |
| d)                                | Rhaid i'r cŵn gael ymarfer corff o leiaf unwaith y dydd neu'n unol â dymuniadau'r perchennog.  | <i>Dylid rhoi ystyriaeth i oedran, ffitrwydd, tymer a diogelwch y cŵn ac i'r math o ymarfer corff sy'n addas, er enghraifft, gallai amgylchiadau olygu nad yw'n briodol i gi gael ymarfer corff oddi ar ei dennyn.</i>   |

|   |   |   |
|---|---|---|
| e)  | Os yw'r cŵn yn mynd y tu allan i'r eiddo i gael ymarfer corff, rhaid eu cadw ar dennyn onid yw'r perchennog wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig iddynt gael eu gollwng oddi ar eu tennyn.                                 | <i>Os byddwch yn cerdded ci oddi ar dennyn yn gyhoeddus, rhaid i chi hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol arall (e.e. gorchymynion rheoli cŵn a Deddf Traffig Ffyrdd 1988). Argymhellir hefyd i chi geisio caniatâd ysgrifenedig y perchennog i fynd â'r ci i ymarfer corff tu allan i'r eiddo ar dennyn.</i>   |
| f)  | Os yw'r cŵn yn mynd oddi ar y safle, mae'n rhaid i'r gymhareb rhwng nifer y staff a nifer y cŵn gael ei hasesu, gan roi i frîd a maint y cŵn.   | <i>Fe allai cymhareb addas fod yn 1 aelod o staff i bob 3 chi.</i>  |
| <b>AMOD 11<br/>GORUCHWYLIAETH</b>                       |   |   |
| a)  | Rhaid i unigolyn cymwys ac addas gyda phrofiad a hyfforddiant perthnasol fod ar gael bob amser i oruchwylio a delio ag argyfyngau pryd bynnag y bydd cŵn yn cael llety yn yr eiddo.                                   | <i>Mae angen i unrhyw un sy'n goruchwylio'r cŵn fod â gwybodaeth ddigonol am ymddygiad cŵn, gan gynnwys iaith y corff, dulliau chwarae a rheoli ymddygiad, yn ogystal ag iechyd cŵn, iechyd a diogelwch a chymorth cyntaf i gŵn.</i>  |
| b)  | Rhaid sicrhau bod digon o staff i oruchwylio'r cŵn.   |   |
| c)  | Ni ddylai aelodau staff fod ag unrhyw euogfarnau troseddol na bod wedi derbyn unrhyw rybuddion am unrhyw droseddau sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid.  | <i>Mae hyn yn cynnwys euogfarnau dan y canlynol: Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963, Deddf Bridio Cŵn 1973, Deddf Anifeiliaid Anwes 1951, Gorchymyn Cŵn (Gogledd Iwerddon) 1963, Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964, Deddf Anifeiliaid Gwylt Peryglus 1976, Deddf Lles Anifeiliaid 2006, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (Yr Alban) 2006 a Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygiedig) 1954.</i>              |
| d)  | Rhaid ymweld â chŵn yn rheolaidd, yn ôl yr angen am resymau iechyd, diogelwch a lles, ac ni ddylid eu gadael ar eu pennau eu hunain yn rheolaidd.   | <i>Ni ddylid gadael cŵn ar eu pennau eu hunain am fwy na 3 awr ar y tro. Os gadewir cŵn o wahanol aelwydydd gyda'i gilydd heb oruchwyliath ar unrhyw adeg, dylid ystyried hynny'n ofalus a chynnal asesiad i benderfynu pa mor ddiogel yw'r penderfyniad hwnnw. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad, efallai y byddwch yn penderfynu bod angen gwahanu cŵn o wahanol aelwydydd (mewn gwahanol ystafelloedd) pan fyddant ar eu pennau eu hunain heb oruchwyliath.</i> |
| e)  | Dim ond unigolion dros 16 oed a ganiateir i fynd â'r cŵn sy'n cael eu lletya am dro mewn mannau cyhoeddus heb oruchwyliath.   | <i>Y rheswm am hyn yw bod angen sicrhau y gall unigolyn cyfrifol reoli'r ci/cŵn mewn mannau cyhoeddus.</i>  |
| <b>AMOD 12<br/>IECHYD A LLES</b>                        |   |   |
| a)  | Rhaid i bob sefydliad lletya cŵn fod wedi cofrestru â milfeddygfa a sicrhau bod y manylion llawn ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu.  | <i>Dylech gynnwys hyn ar eich ffurflen gais. Gweler cyfeiriadau milfeddygfeydd ar wefan Coleg Brenhinol y Milfeddygon: <a href="http://www.rcvs.org.uk/find-a-vet-search">http://www.rcvs.org.uk/find-a-vet-search</a> Fe'ch cynghorir hefyd i ganfod milfeddygfa sy'n cynnig gwasanaeth y tu allan i oriau swyddfa, rhag ofn y bydd argyfwng ar ôl oriau agor eich milfeddygfa arferol.</i>  |
| b)  | Rhaid i chi wybod manylion milfeddygfa'r cleient ei hun, a chysylltu â hi os bydd angen.  | <i>Os yw'n bosib ac yn ymarferol (pellter ac ati), dylech ddefnyddio milfeddygfa'r perchennog os bydd angen. Dylid cadw cofnod o fanylion milfeddygfa'r perchennog.</i>   |
| c)  | Rhaid ceisio cyngor gan filfeddyg os gwelir arwyddion o glefyd, anaf neu salwch. Os bydd unrhyw gi yn sâl neu wedi'i anafu, rhaid dilyn yn gaeth unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer ei driniaeth a roddwyd gan filfeddyg. |   |
| <b>AMOD 13<br/>RHEOLI CLEFYDAU, BRECHIADAU AC YNYSU</b> |   |   |



|  |   |
|--|---|
| <p>a) Rhaid cymryd rhagofalon digonol i atal a rholi lledaeniad clefydau heintus a pharasitiaid ymysg y cŵn, y staff ac ymwelwyr.</p>  | <p><i>Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cŵn wedi cael eu brechu rhag clefydon a'u trin ar gyfer parasitiaid cyn eu lletya. Mae rhagofalon digonol eraill yn cynnwys glanhau a diheintio'n rheolaidd, cael gwared ar faw cŵn yn rheolaidd, golchi dwylo'n rheolaidd ac ati. Mae hyn hefyd yn cynnwys atal clefydau heintus rhag lledaenu rhwng cŵn sydd wedi'u hynysu a chŵn eraill.</i></p>  |
| <p>Rhaid i gŵn preswyl neu gŵn sy'n cael llety fod â chofnod diweddar o amddiffyniad a gymeradwywyd gan filfeddyg yn erbyn -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Clefyd y Cŵn</li> <li>• Hepatitis Heintus Cŵn (adenofeirws cŵn)</li> <li>b) • Leptospirosis (L.canicola a L.icterohaemorrhagicae)</li> <li>• Parofeirws Cŵn</li> <li>• Unrhyw glefydau perthnasol eraill.</li> </ul> <p>Rhaid cadw cofnod ar y safle bod y dystiolaeth hon wedi'i chyflenwi.</p> | <p><i>Dylech gadw copi o gofnodion brechu'r cŵn fel prawf fod pob ci sy'n cael llety wedi'u hamddiffyn rhag clefydau. Mae'n rhaid i'r cerdyn brechu (neu gopïau ohono) gael ei gadw gyda chofnodion y ci. Gall unrhyw glefyd perthnasol arall y gallai'r sefydliad fynnu brechiad yn ei erbyn gynnwys clefydau fel Peswch Cenedl (Bordetella Bronchiseptica / Feirws Parainfluenza Cŵn) neu unrhyw frechiadau eraill a gynghorir gan filfeddyg/milfeddygfa.</i></p> |
| <p>c) Rhaid i'r Trwyddedai roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu ar y diwrnod gwaith canlynol os bydd ci'n datblygu clefyd heintus. Yn dilyn achos o glefyd heintus yn ystod unrhyw arhosiad, rhaid rhoi'r eiddo mewn cwarantyn am gyfnod rhesymol cyn derbyn unrhyw gŵn newydd i gael llety. Yr Awdurdod Trwyddedu fydd yn pennu'r cyfnod hwnnw mewn cytundeb â'u milfeddyg awdurdodedig.</p>   | <p><i>I roi gwybod am a thrafod y cyfnod cwarantyn ymhellach, gallwch anfon neges e-bost at <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283.</i></p>   |
| <p>d) Rhaid i gyfleusterau ynysu fod ar gael, rhaid iddynt gydymffurfio ag amodau eraill y drwydded, a rhaid iddynt hefyd fod wedi'u hynysu yn gwbl ar wahân i lety cŵn eraill.</p>  | <p><i>Gellir gwneud hyn drwy ddynodi ystafell er dibenion ynysu, y gellir ei defnyddio i letya ci heintus os bydd angen. Dylid cofnodi cyngor milfeddygol a'i ddilyn ar unwaith ar gyfer unrhyw gi heintus. Mae angen ynysu cŵn yn effeithiol a bydd disgwyl tystiolaeth o gyswllt milfeddyg.</i></p>   |
| <p>e) Rhaid sefydlu mesurau bioddiogelwch digonol i atal clefydau heintus rhag lledaenu rhwng cŵn sydd wedi'i hynysu a chŵn eraill.</p>  | <p><i>Mae hyn yn cynnwys golchi dwylo, glanhau a diheintio rheolaidd, PPE (os oes angen), dillad untro ac ati. Dylid ceisio cyngor milfeddygol bob amser.</i></p>   |
| <p>f) Rhaid darparu dulliau amgen o ysgogiad meddyliol i gŵn y mae angen eu hynysu oddi wrth gŵn eraill.</p>   | <p><i>Rhaid rhoi gwybod i'r perchennog os oes rhaid ynysu eu ci oddi wrth gŵn eraill, a dangos sut y bydd hynny'n cael ei wneud. Rhaid darparu amrywiaeth pwrpasol o deganau a phrofiadau eraill i gŵn sy'n cael eu hynysu er mwyn annog ymddygiad sy'n nodweddiadol o'r rhywogaeth.</i></p>  |
| <p><b>AMOD 14</b><br/><b>GOFYNION AMRYWIOL</b></p>   |   |
| <p>a) Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd unrhyw anifail yn marw yn yr eiddo. Rhaid i'r Trwyddedai wneud trefniadau i'r corff gael ei storio mewn milfeddygfa nes y bydd y perchnogion yn dychwelyd.</p>  | <p><i>Gellir gwneud hyn drwy anfon neges e-bost at <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283.</i></p>  |
| <p>b) Rhaid i becyn cymorth cyntaf cyflawn sy'n addas i'w ddefnyddio ar gŵn fod ar gael ac yn hawdd ei gyrraedd ar y safle.</p>  | <p><i>Dylai'r pecyn cymorth cyntaf gynnwys yr eitemau canlynol: detholiad o ddresinau, gorchudd clwyf nad yw'n glynu, rhwymynnau cadw, rhwymynnau gorchuddio, gwllân cotwm, siswrn, plyciwr, tortsh, penffrwynau o feintiau addas, rhif cyswllt y filfeddygfa, gan gynnwys manylion y tu allan i oriau.</i></p>   |

|   |   |
|---|---|
| <p>Pe digwydd i gi ddianc neu fynd ar goll o sefydliad gofal dydd trwyddedig, rhaid i'r trwyddedai roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny, a heb oedi'n ddiangen. Rhaid rhoi manylion llawn dyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau'r digwyddiad, disgrifiad o'r ci, manylion llawn y perchennog ac unrhyw gamau y mae'r trwyddedai eisoes wedi'u cymryd i ganfod y ci.</p> | <p><i>Gellir gwneud hyn drwy anfon neges e-bost at <a href="mailto:foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk">foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk</a> neu ffonio 01492 575283.</i></p> <p><i>I roi gwybod i warden cŵn yr awdurdod lleol am gi sydd wedi dianc/mynd ar goll, ffoniwch 01492 575222 yn ystod oriau swyddfa neu 0300 123 3079 y tu allan i oriau swyddfa.</i></p> |
| <p>d) Rhaid i berson dynodedig o fewn amser teithio rhesymol fod yn cadw set o allwedd sbâr ac yn gallu mynd i'r eiddo mewn argyfwng. Rhaid rhoi'r manylion hyn i'r Awdurdod Trwyddedu.</p>   | <p><i>Gallu unigolyn dynodedig fod yn aelod o'r teulu, ffrind, cymydog neu unrhyw unigolyn addas arall. Dylech gynnwys y wybodaeth hon ar eich ffurflen gais. Dehonglir pellter rhesymol, dan amodau arferol, fel dim mwy na 30 munud o amser teithio.</i></p>  |
| <p><b>AMOD 15<br/>CLUDO CŴN</b></p>   |   |
| <p>a) Rhaid i Drwyddedai sy'n cynnig gwasanaethau casglu a danfon sicrhau bod y cerbydau a ddefnyddir yn cydymffurfio â rheoliadau Lles Anifeiliaid a Gludir.</p>   | <p><i>Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio'r gofynion er mwyn sicrhau 'Lles Anifeiliaid a Gludir'. Mae enghreifftiau'n cynnwys: cewyll cŵn wedi'u gosod yn ddiogel ac awyriad digonol, yn ogystal â'r gofyniad i ddal tystysgrif awdurdodi Cludwyr ar gyfer unrhyw daith dros 65km / 40 milltir.</i></p>   |
| <p>b) Mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded allu dangos bod cerbyd addas ar gael i gludo cŵn neu, os na ddarperir cerbyd, bod cynllun wrth gefn mewn lle ar gyfer cludiant brys (e.e. at y milfeddyg).</p>  | <p><i>Mae hyn yn bwysig os bydd ci angen triniaeth filfeddygol frys, pan fyddai angen ei gludo i'r sefydliad. Os nad oes cerbyd ar gael, rhaid bod gennych chi gynllun i ddelio â sefyllfaoedd lle mae angen cludiant brys.</i></p>   |
| <p>c) Rhaid i gŵn gael eu cyfyngu mewn modd addas gan ddefnyddio crât ci, giard ci neu harnais cludo. Rhaid i gratiau cŵn fod o faint digonol, wedi'u dylunio i ddarparu awyriad da ac wedi'u gosod yn ddiogel.</p>   | <p><i>Mae'n bwysig i gŵn gael eu cyfyngu wrth eu cludo, er mwyn diogelu'r cŵn a chithau rhag anaf. Gallai ci heb ei gyfyngu dynnu eich sylw wrth yrru, a gallai hynny arwain at wrthdrawiad. Gallai cludo cŵn yn amhriodol mewn cerbyd hefyd annilysu yswiriant eich cerbyd.</i></p>  |
| <p>d) Pan fo'r busnes yn defnyddio cerbydau i gasglu a dychwelyd cŵn, rhaid casglu'r cŵn a'u dychwelyd i'r eiddo ar dennyn.</p>   | <p><i>Rhaid gwneud hyn er mwyn lleihau'r perygl i'r ci ddianc.</i></p>  |
| <p>e) Ni cheir gadael cŵn mewn cerbyd am gyfnodau afresymol, na'u gadael ar eu pennau eu hunain mewn car na cherbyd arall lle gallai'r tymheredd achosi perygl i'r cŵn.</p>   | <p><i>Gall gadael ci mewn cerbyd am gyfnodau estynedig, pan fo'r tymheredd y tu allan yn uchel, arwain at drawiad gwres, a allai fod yn angheuol.</i></p>   |
| <p>f) Rhaid glanhau a diheintio cerbydau'n rheolaidd.</p>   | <p><i>Dylid eu glanhau a'u diheintio bob tro ar ôl eu defnyddio.</i></p>  |
| <p><b>AMOD 16<br/>GWAGIO'R ADEILAD MEWN ACHOS O DÂN, MATERION TRYDANOL A DEILIAID ALLWEDDI</b></p>  |   |
| <p>a) Rhaid i ragofalon a gweithdrefnau brys ysgrifenedig addas fod wedi'u sefydlu, a rhaid rhoi gwybod amdanynt i bob aelod staff, gan gynnwys trefniadau i gael yr anifeiliaid allan o'r adeilad.</p>   | <p><i>Dylai aelodau staff fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn a dylid arddangos copi i'r staff allu cyfeirio ato os bydd angen. Dylid ymarfer gwagio'r adeilad yn rheolaidd a chadw cofnod o'r ymarferion. Dylai pob aelod staff gael hyfforddiant rheolaidd a dylid cadw cofnod o'r hyfforddiant hwnnw. Ni ddylai'r weithdrefn hon roi unrhyw un mewn perygl diangen.</i></p> |
| <p>b) Rhaid sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro'r mynedfeydd na'r allfeydd ar unrhyw adeg.</p>  | <p><i>Er mwyn hwyluso'r broses o wagio'r adeilad heb berygl os bydd angen, wrth ddylunio'r llety, dylid ystyried defnyddio systemau fyddai'n caniatáu i'r anifeiliaid gael eu harwain o'r adeilad yn ddi-oed mewn argyfwng.</i></p>   |

|   |  |
|---|--|
| <p>c) Rhaid darparu cyfarpar addas i ymladd, atal a chanfod tân, a dylid cynnal a chadw'r cyfarpar hwn (gan unigolyn cymwys), ei wasanaethu'n rheolaidd a'i lleoli yn unol â chynghor y swyddog atal/diogelu tân lleol a gyda chymeradwyaeth yr awdurdod lleol.</p>   | <p><i>Bydd hyn yn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn os bydd ei angen. Dylai aelodau staff gael hyfforddiant priodol ar ddefnyddio'r cyfarpar a ddarperir.</i></p>  |
| <p>d) Rhaid cymryd rhagofalon er mwyn atal y perygl o dân.</p>  | <p><i>Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth ofalus o leoliad offer gwresogi er mwyn sicrhau nad ydynt wedi'u gosod mewn lle nac mewn ffordd allai achosi perygl o dân neu berygl i gŵn, ac osgoi cronni unrhyw ddeunyddiau allai achosi perygl o dân. Bydd y rhagofalon hyn ac eraill yn lleihau'r perygl o dân.</i></p>   |
| <p>e) Rhaid i feddiannwr yr eiddo fod yn ymwybodol o leoliad y cŵn yn yr eiddo bob amser.</p>   | <p><i>Os bydd angen gwagio'r adeilad, bydd gwybod lle mae pob ci yn yr eiddo yn gwneud y broses wagio'n haws ac yn fwy diogel.</i></p>   |
| <p>f) Rhaid cadw pob gosodiad ac offer trydanol mewn cyflwr diogel ac mewn cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Rhaid i systemau trydanol fod wedi'i hadeiladu a'u cynnal a'u cadw'n ddigonol er mwyn atal perygl, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol resymol, yn unol â Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.</p> | <p><i>I helpu cydymffurfio â'r rheoliadau hyn, darllenwch y manylion yn yr atodiad sydd ynghlwm. Rhaid i bob gosodiad trydanol gael ei osod gan unigolyn â chymwysterau priodol, eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel a'u lleoli fel nad ydynt yn achosi perygl. Rhaid cynnal a chadw'r holl gyfarpar mewn cyflwr da a'u gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.</i></p> |
| <p>g) Rhaid i'r Trwyddedai gael trefniadau addas ar gyfer lletya cŵn dros dro os bydd yr eiddo trwyddedig wedi'i ddifrodi fel na ellir ei ddefnyddio.</p>   | <p><i>Gallai'r trefniant hwn olygu defnyddio sefydliad lletya cŵn trwyddedig arall neu eiddo addas arall.</i></p>  |

**AMOD 17**  
**CADW COFNODION A CHOFRESTR**

|  |  |
|--|--|
| <p>Rhaid cadw cofrestr o'r holl gŵn sy'n lletya yn y sefydliad, a rhaid i'r gofrestr honno fod ar gael i bob aelod staff allweddol bob amser. Rhaid i'r wybodaeth a gedwir gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyddiad ac amser cyrraedd a gadael.</li> <li>• Enw'r ci ac unrhyw farciau adnabod eraill fel rhif microsglodyn neu datŵ.</li> <li>• Disgrifiad, brîd, oedran a rhyw'r ci.</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y perchennog neu'r ceidwad.</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn person cyswllt mewn argyfwng tra bo'r ci'n cael llety.</li> <li>• Enw, cyfeiriad a rhif ffôn milfeddyg y ci.</li> <li>• Dyddiau arferol ar gyfer gofal dydd.</li> <li>• Manylion unrhyw feddyginiaeth a roddir ar bob achlysur – faint ohono a sut y caiff ei weinyddu.</li> <li>• Gofynion iechyd, meddyginiaeth, lles, maeth ac ymarfer corff.</li> <li>• Cofnodion o ddyddiadau moddion llyngyr a thriniaethau chwain mwyaf diweddar pob ci.</li> <li>• Copi o gerdyn brechu y ci</li> <li>• Copi o ganiatâd ysgrifenedig y perchennog i'r ci gael rhyngweithio â'r cŵn eraill yn y sefydliad a rhyngweithio â chŵn anwes yr eiddo (os yw hynny'n berthnasol).</li> </ul> | <p><i>Dylai'r gofrestr fod mewn fformat sy'n eglur ac yn hawdd i unrhyw aelod staff a'r arolygydd trwyddedu ei deall. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i bob aelod staff allweddol ac i'r swyddog arolygu ar gais.</i></p>   |
| <p>b) Rhaid cadw cofnodion am o leiaf 24 mis, a'u cadw mewn ffordd sy'n galluogi swyddog awdurdodedig i gael gafael ar y wybodaeth yn hawdd.</p>   | <p><i>Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw cofnodion o'r fath am o leiaf 2 flynedd o ddyddiad creu'r cofnod.</i></p>   |
| <p>c) Pan fo'r cofnodion yn cael eu cadw ar gyfrifiadur, rhaid cadw copi wrth gefn neu gopi caled.</p>   | <p><i>Rhaid i unrhyw gofnodion ar gyfrifiadur hefyd fod yn hawdd i aelodau staff a swyddogion awdurdodedig gael gafael arnynt. Gallai copi wrth gefn fod yn gopi papur wedi'i argraffu neu'n gopi wedi gadw ar USB, disg neu yriant caled.</i></p>   |
| <p>d) Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i holl aelodau staff y sefydliad bob amser.</p>   |  |
| <p><b>AMOD 18</b><br/><b>MEDDYGINIAETHAU ARFEROL, CYMDEITHASU A THAGIAU ADNABOD</b></p>  |  |
| <p>a) Rhaid i unrhyw feddyginiaeth neu driniaeth arferol/dyddiol y mae unrhyw gi gofal dydd ei hangen gael ei rhoi iddynt gan berson cymwys.</p>   |  |
| <p>b) Rhaid trafod yn drylwyr faint a pha mor aml y mae angen rhoi'r feddyginiaeth a chofnodi hynny cyn i'r ci ddod i aros. Yn ystod gofal dydd, rhaid cadw cofnod o'r holl feddyginiaeth a roddir.</p>  | <p><i>Mae'n bwysig bod gan y trwyddedai dystiolaeth ysgrifenedig o unrhyw ofynion o ran meddyginiaeth, er mwyn diogelu iechyd a lles y ci ac i'w hamddiffyn eu hunain pe bai problem yn codi yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod faint o feddyginiaeth a roddir a pha mor aml y caiff ei roi yn hysbys cyn lletya'r ci. Tra bydd y ci'n cael llety, dylid llunio rhestr wirio gyda dyddiad ac amser rhoi pob meddyginiaeth arno, a dylai hon gael ei llofnodi bob tro y rhoddir y feddyginiaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y symiau cywir yn cael eu rhoi.</i></p> |

|   |  |
|---|--|
| <p>c) Rhaid cadw meddyginiaethau a geir ar bresgripsiwn yn ddiogel mewn cwpwrdd/oergell, ar y tymheredd cywir, a'u defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.</p>                       | <p><i>Rhaid cwblhau pob cwrs yn ôl y manylion a roddir gan y milfeddyg. Rhaid dychwelyd unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei ddefnyddio i'r perchennog neu i'r milfeddyg a'i rhoddodd ar bresgripsiwn. Rhaid i oergell fod ar gael i storio meddyginiaethau y mae angen eu cadw ar dymheredd isel penodol.</i></p>   |
| <p>d) <i>Rhaid rhoi cyfle i bob anifail ryngweithio a chael eu hysgogi bob dydd.</i></p>  | <p><i>Dylid sicrhau ymarfer corff, cyfle i chwarae a chyswllt fel arall â phobl er mwyn sicrhau bod y cŵn yn rhyngweithio cymaint ag y byddent fel arfer yn eu cartref. Rhaid i bob ci gael teganau ac/neu brofiadau bwydo priodol oni cheir cyngor gan y perchennog/milfeddyg sy'n awgrymu fel arall. Rhaid i'r sefydliad sicrhau caniatâd ysgrifenedig y perchennog os na argymhellir profiadau o'r fath. Rhaid gwirio eitemau bob dydd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod yn ddiogel. Rhaid monitro cŵn drwy'r amser pan fyddant yn cael teganau ac/neu brofiadau. Ni ddylai unrhyw deganau neu gyfarpar a ddefnyddir achosi perygl o boen, dioddefaint, clefyd ac/neu drallod i'r ci, a dylent gael eu defnyddio'n gywir. Rhaid gwirio eitemau bob dydd i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod yn ddiogel, a chael gwared arnynt os oes difrod iddynt.</i></p> |
| <p>e) Rhaid i gŵn wisgo coler a thag adnabod pan fyddant y tu allan i'r eiddo lletya (mewn mannau ymarfer corff cyhoeddus neu fannau allanol yr eiddo). Rhaid i'r tag ddangos enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr eiddo lletya.</p> | <p><i>Dyma enghraifft o dag adnabod ci'r eiddo: "Gofal Dydd i Gŵn ABC, rhif/enw'r tŷ, cod post a'r rhif ffôn". Bydd hyn yn helpu adnabod y cŵn a bydd hefyd yn helpu staff i reoli'r cŵn os bydd un yn ceisio dianc neu os bydd yna dân neu argyfwng arall. Os bydd ci yn mynd ar goll, gallai helpu i'w ddarganfod yn gyflym. Mae'n ofynnol yn unol â'r Gorchymyn Rheoli Cŵn 1992 i gŵn wisgo coler a thag mewn mannau cyhoeddus.</i></p>   |

## **A. Y WEITHDREFN APELIO**

### **Deddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963 - Adran 1 (4)**

Gall unrhyw berson sydd wedi ei dramgwyddo gan benderfyniad awdurdod lleol i wrthod rhoi trwydded o'r fath, neu gan unrhyw amod ar gyfer rhoi trwydded o'r fath, apelio i'r llys ynadon. Gall y llys mewn perthynas ag apêl o'r fath roi chyfarwyddiadau o ran rhoi trwydded neu, yn ôl yr achos, o ran yr amodau ar gyfer rhoi trwydded, fel y mae'n barnu'n briodol.

## **B. CANLLAWIAU RHAGOFALON TÂN**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i drwyddedai er mwyn hwyluso cydymffuriad â'r gofynion rhagofalon tân a nodir yn amodau trwyddedu'r Cyngor, sydd yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau priodol er mwyn diogelu anifeiliaid mewn achos o dân neu unrhyw argyfwng arall.

Nod y canllawiau yw sicrhau bod y dulliau dianc a'r rhagofalon tân cysylltiedig yn ddigonol ar gyfer y bobl sy'n preswyllo yno. Dylid cadw mewn cof y gallai'r gofynion diogelwch tân ar gyfer pobl fod yn destun deddfwriaeth arall.

Dylid ystyried y materion canlynol:

1. Mynediad ar gyfer Ymladd Tân a Chyflenwadau Dŵr - Dylid sicrhau mynediad da ar gyfer cyfarpar ymladd tân (isafswm lled o 3.7m) i'r holl hydrantau a ffynonellau dŵr eraill, a dylid darparu llawr caled. Dylid arddangos bwrdd enw'r eiddo yn amlwg ger y ffordd fynediad agosaf.
2. Dulliau Dianc - Dylid dylunio llwybrau dianc ar gyfer anifeiliaid sy'n eu galluogi i redeg yn syth allan o adeiladau, gyda'r lleiaf posib o gymorth gan bobl. Dylid gosod drysau unrhyw gytiau fel y gellir cael anifeiliaid allan ohonynt yn gyflym, a dylid osgoi troadau llym, rhwystrau a rampiau ar y llwybrau dianc cyn belled ag y bo modd.
  - a) Dylid darparu allanfeydd ym mhob eiddo sy'n ddigon llydan ac uchel i ganiatáu mynediad rhwydd i'r anifeiliaid bob amser.
  - b) Dylai'r allanfeydd fod yn hawdd eu hagog o'r tu mewn heb ddefnyddio allwedd.
  - c) Os bydd angen, dylid gwneud trefniadau ar gyfer galw ar ddeiliaid allwedd yn hwylus.

Mewn adeiladau sy'n fwy na 18 metr o hyd neu lle mae nifer sylweddol o anifeiliaid yn cael eu cadw, dylid darparu o leiaf dwy allanfa wedi'u lleoli mor bell oddi wrth ei gilydd ag y bo modd. Dylid cyfyngu'r pellter teithio i 45 metr.

3. Arwyddion Dim Ysmygu - Dylid arddangos arwyddion dim ysmygu gerllaw unrhyw wair neu wellt, a phan fo'n ymarferol, dylid cymryd rhagofalon rhag mynediad anawdurdodedig, yn arbennig gan blant.
4. Gosodiadau Trydanol - Dylai gosodiadau trydanol, gan gynnwys lampau, gael eu glanhau'n rheolaidd i atal llwch rhag cronni. Dylid lleoli a diogelu cyfarpar trydanol, gwresogyddion ac ati fel eu bod bellter diogel oddi wrth unrhyw groniadau tebygol o ddeunyddiau gwely fflamadwy.
5. Offer Ymladd Tân
  - a. Diffoddwyr Tân Symudol - Argymhellir darparu o leiaf y canlynol:
    - Mae adeiladau nad ydynt yn fwy na 200m<sup>2</sup> angen o leiaf 2 ddiffoddwr tân dŵr 9 litr; ar gyfer adeiladau sy'n fwy na 200m<sup>2</sup>, rhaid darparu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer pob 200m<sup>2</sup> ychwanegol neu ran ohono.
    - Rhaid i ddiffoddwyr tân symudol fodloni gofynion BS EN 3 a chael eu gosod a'u cynnal yn unol â'r argymhellion a roddir yn BS 5306.
    - Yn dibynnu ar ganlyniad eich asesiad risg tân, efallai y bydd posib lleihau hyn i un diffoddwr tân mewn eiddo bychan iawn gydag arwynebedd llawr sy'n llai na 90m<sup>2</sup>.
    - Ni ddylid defnyddio diffoddwyr tân sy'n gwneud sŵn uchel wrth eu defnyddio, e.e. CO<sub>2</sub> neu gymylau mawr o bowdr sych, yn agos at anifeiliaid.
  - b. Olwynion Pibell Ddŵr - Gellir darparu olwynion pibell ddŵr yn hytrach na diffoddwyr tân symudol. Dylid cael o leiaf un pibell ar gyfer pob 800m<sup>2</sup> o arwynebedd, neu ran ohono. Dylai gydymffurfio â BS 5306: Rhan 1. Gallai pibell

olchi fod yn dderbyniol cyn belled â bod ganddi lif cyson o ddŵr sy'n gallu cynhyrchu jet dŵr â lleiafswm taflad o 5 metr. Ni ddylai olwynion pibell ddŵr fod yn fwy na 45m o hyd a dylid eu lleoli fel y gellir mynd â'r chwistrell o fewn 6m i bob rhan o'r eiddo a ddiogelir.

6. Rhybuddion tân – dylai holl staff y sefydliad fod yn gyfarwydd â pha gamau y dylid eu cymryd mewn achos o dân. Dylid darparu rhybudd amlwg wedi'i ysgrifennu'n glir sy'n dangos y camau y dylid eu cymryd mewn achos o dân, a lleoliad y ffôn agosaf.

Gall y rhybudd gynnwys y canlynol:

“Os gwelwch dân, sicrhewch bod yr adeilad dan sylw yn cael ei wagio. Ffoniwch y Frigâd Dân {mae'r ffôn agosaf yn .....}. Ceisiwch ymladd y tân gan ddefnyddio'r offer ymladd tân a ddarperir, os yw'n ddiogel gwneud hynny ac ati”.

7. Cyfeirnod Map O/S - Dylai cyfeirnod map Arolwg Ordnans fod ar gael ar gyfer yr eiddo a dylid ei arddangos gyda'r Rhybudd Tân.

Mae **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu rhagofalon tân angenrheidiol er mwyn amddiffyn pobl berthnasol mewn achos o dân ym mhob eiddo y mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys iddynt, ac ym mhob eiddo cyfagos.

Y 'person cyfrifol' sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gorchymyn. Mewn gweithle, y cyflogwr ac unrhyw berson sydd â rheolaeth ar unrhyw ran o'r eiddo fydd hwnnw, e.e. y meddiannwr neu'r perchennog. Ym mhob eiddo arall, y person neu bobl sy'n rheoli'r eiddo fydd yn gyfrifol.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol:

Gynnal Asesiad Risg Tân, a rhaid cofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad os cyflogir pump neu fwy o bobl, os yw'r eiddo wedi'i drwyddedu neu os oes hysbysiad addasiadau mewn grym.

I roi mwy o gymorth i chi, mae'r Fire Safety Risk Assessment: Animal Premises and Stables (ISBN: 978 1 85112 884 6) ar gael o'r Llyfrfa neu drwy wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ([www.communities.gov.uk](http://www.communities.gov.uk)).

### **C. IECHYD A DIOGELWCH**

Mae cyfraith lechyd a Diogelwch yn gymwys i bob busnes, waeth pa mor fach. Fel cyflogwr neu berson hunangyflogedig, chi sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn eich busnes. Mae angen i chi gymryd y rhagofalon priodol er mwyn lleihau'r risgiau cysylltiedig â pheryglon yn y gweithle, a darparu amgylchedd gweithio diogel.

Mae yna ganllaw ar gael o'r enw "Health and Safety made simple". Mae'r canllaw hwn yn gwneud bywyd yn haws i chi drwy ddarparu'r wybodaeth sylfaenol am yr hyn y mae angen i chi ei wneud i gyd mewn un ddogfen. Bydd o fudd i chi ddechrau rheoli iechyd a diogelwch eich busnes.

Ar gyfer rhai gweithgareddau yn y gwaith, efallai y bydd yna bethau ychwanegol y mae angen i chi eu gwneud i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae mwy o ganllawiau ar bynciau penodol, megis rheoli asbestos, atal afiechyd o gyswllt ag anifeiliaid ac ati, a modelau o asesiadau risg, ar gael ar-lein yn [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk).

Gellir lawrlwytho'r canllaw "Health and Safety made simple" drwy ddilyn y ddolen hon:

<http://www.hse.gov.uk/pubns/indg449.pdf>